Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**DEDDF CAFFAEL TIR 1981**
**CAIS AM DYSTYSGRIF YN UNOL Â PHARAGRAFF 6 O ATODLEN 3 I**
**DDEDDF CAFFAEL TIR 1981**
**CAFFAELIAD HAWLIAU GORFODOL ARFAETHEDIG DROS**
**DIR I HWYLUSO GORCHYMYN PRYNU GORFODOL NATIONAL GRID ELECTRICITY TRANSMISSION PLC**
**(PROSIECT NEWID CEBLAU DINORWIG I BENTIR) 2021**

1. Ar 24 Medi 2021, gwnaeth National Grid Electricity Transmission PLC ("yr ymgeisydd") Orchymyn Prynu Gorfodol y National Grid Electricity Transmission PLC (Prosiect Newid Ceblau Dinorwig i Bentir) 2021 ("y Gorchymyn"). Gwnaethpwyd y Gorchymyn yn unol ag Adran 10 ac Atodlen 3 Deddf Trydan 1989. Pwrpas y Gorchymyn yw caniatáu i'r ymgeisydd gaffael yn orfodol yr hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn sydd eu hangen er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni Prosiect Newid Ceblau Dinorwig i Bentir. Bydd y Gorchymyn yn caniatáu i'r ymgeisydd newid y ddwy gylched ceblau presennol am dair cylched o geblau tanddaearol rhwng is-orsaf ym Mynydd Dinorwig, is-orsaf ym Mhentir a chompownd pen selio ym Mhenisa'r Waun.
2. Ar 17 Rhagfyr 2021, gwnaeth yr ymgeisydd gais am dystysgrif yn unol â Deddf Caffael Tir 1981 ("DCT 1981"). O dan y cais hwn, mae'r ymgeisydd yn gofyn am dystysgrif gan Weinidogion Cymru o dan Adran 28, a pharagraff 6(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Caffael Tir 1981, i awdurdodi'r caffaeliad gorfodol yn unol â'r Gorchymyn hawliau dros dir agored.
3. Disgrifir y tir a'r hawliau cysylltiedig y cais yn yr Atodlen sydd ynghlwm wrth yr hysbysiad hwn.
4. Mae paragraff 6 o Atodlen 3 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn darparu fel a ganlyn:

*"(1) I'r graddau y mae gorchymyn prynu gorfodol yn awdurdodi caffael hawl dros dir sy'n rhan o gomin, man agored neu randir gardd gae neu danwydd, bydd yn ddarostyngedig i weithdrefn seneddol arbennig oni fodlonir yr Ysgrifennydd Gwladol—*

*(a) na fydd y tir, pan fydd yn cynnwys yr hawl hwnnw, yn llai manteisiol i'r personau hynny sydd yn berchen arno nac i bersonau eraill, os oes rhai, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill, nac i'r cyhoedd, nag yr oedd o'r blaen, neu*

*(aa) bod yr hawl yn cael ei chaffael er mwyn diogelu neu wella rheolaeth y tir*

*(b) bod tir ychwanegol priodol yn cael ei roi neu wedi cael ei roi yn gyfnewid a fydd, o ran y personau sy'n berchen ar y tir y mae'r hawl i gael ei gaffael, y personau, os oes rhai, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill dros y tir hwnnw, a'r cyhoedd, yn ddigonol i'w digolledu am yr anfanteision sy'n deillio o gaffael yr hawl, a bod y tir ychwanegol yn cael ei roi i'r personau hynny sy'n berchen ar y tir y mae'r hawl yn cael ei gaffael ynddo, ac yn ddarostyngedig i'r un hawliau, ymddiriedolaethau ac achosion sy'n gysylltiedig i'r tir heb law am y gorchymyn prynu gorfodol, neu*

*(c) nad yw'r tir yr effeithir arno gan yr hawl i gael ei gaffael yn fwy na 250 llath sgwâr o ran maint, ac nad oes angen rhoi tir arall yn gyfnewid am yr hawl, boed hynny er budd y personau, os oes rhai, sydd â hawl i hawliau comin neu hawliau eraill neu er budd y cyhoedd, a'i fod yn ardystio yn unol â hynny."*

5. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff (6)(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Caffael Tir 1981 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac fe'u trosglwyddwyd wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
6. Cyn y gellir rhoi Tystysgrif, mae paragraff 6(3) o Atodlen 3 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r ymgeisydd (fel awdurdod caffael) i roi hysbysiad cyhoeddus o'r bwriad i roi'r dystysgrif. **Mae'r ymgeisydd yn rhoi gwybod drwy hyn o fwriad Gweinidogion Cymru i roi tystysgrif mewn perthynas â'r cais** ar y sail na fydd y tir, pan fydd yn cynnwys yr hawliau y bwriedir eu caffael, yn llai manteisiol i'r personau hynny sydd yn berchen arno nac i bersonau eraill, os oes rhai, sydd â hawl i hawliau comin neu

hawliau eraill, nac i'r cyhoedd, nag yr oedd o'r blaen, yn unol â pharagraff 6(1)(a) o Atodlen 3 i Ddeddf Caffael Tir 1981.

7. Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig a'u cyfeirio at:

Y Gangen Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; neu

Drwy anfon e-bost at : accessandrecreationmynediadahamdden@gov.wales, cyn 27 Mai 2022 gan nodi'r cyfeirnod MA/LW/0273/22

8. Gellir gweld y Gorchymyn, Mapiau'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardaloedd o dir agored y bwriedir caffael hawliau drostynt yn ystod oriau agor yn Llyfrgell Caernarfon, Allt Pafiliwn, Caernarfon LL55 1ASD a hiips://www.nationalgrid.com/uk/electricity-transmission/network-and-infrastructure/dinorwig-pentir

9. Caiff Gweinidogion Cymru, os yw'n ymddangos bod angen iddynt wneud hynny, gynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus i'r achos.

Yn gywir



Ceri Witchard
Pennaeth yr Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Llofnodwyd o dan awdurdod y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

## ATODLEN
## Tir Agored Perthnasol

**Ardal HDD3: Tua 5714 metr sgwâr o laswelltir wedi'i amgylchynu gan goetir i'r de o Graig y Dinas**

| Plot | Disgrifiad |
|---|---|
| 5-14 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 5,714 metr sgwâr o laswelltir, coedlannau, gwrychoedd a cheblau trydan uwchben, i'r de o Graig y Dinas, Llanddeiniolen |

**Ardal HDD1: Tua 2595 metr sgwâr yn cynnwys rhannau o Lyn Padarn ac Afon y Bala, i'r Gorllewin o'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol**

| Plot | Disgrifiad |
|---|---|
| 8-05 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 1,103 metr sgwâr o lyn (Llyn Padarn) i'r gorllewin o'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Llanberis |
| 8-06 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 26 metr sgwâr o lyn (Llyn Padarn) i'r gorllewin o'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Llanberis |
| 8-07 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 1,466 metr sgwâr o afon, gwely a glannau (Afon y Bala) i'r gorllewin o'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Llanberis |

**Ardal Tir Pori Mynediad Agored: Tua 28613 metr sgwâr o dir pori a glaswelltir**

| Plot | Disgrifiad |
|---|---|
| 8-08 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 21,496 metr sgwâr o dir pori amaethyddol, gwrychoedd, troedffordd, llwybr cyhoeddus (Llanberis/48) a cheblau trydan uwchben, i'r gogledd ddwyrain o'r A4086, Llanberis |
| 8-09 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 7,117 metr sgwâr o laswelltir, troetffyrdd a choedlan i'r gogledd o Ganolfan Ymwelwyr Mynydd Trydan, Llanberis |

**Ardal Picnic Maes Parcio Ger y Llyn: Tua 1605 metr sgwâr o ardal laswelltog a choedlan wrth ymyl Ardal Picnic Maes Parcio Ger y Llyn**

| Plot | Disgrifiad |
|---|---|
| 8-21 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 568 metr sgwâr ardal laswelltog a choedlan wrth ymyl maes parcio Ger y Llyn, Llanberis |
| 8-22 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 72 metr sgwâr o ardal laswelltog wrth ymyl maes parcio Ger y Llyn, Llanberis |
| 8-23 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 965 metr sgwâr o ardal laswelltog, troetffordd, ramp cwch, llawr caled a llwybr cyhoeddus (Llanberis/48) wrth ymyl maes parcio Ger Llyn, Llanberis |

**Ardal HDD2: Tua 13,034 metr sgwâr o dir, trac mynediad, coedlan, llwybr cyhoeddus, glaswelltir a rhannau o Afon y Bala**

| Plot | Disgrifiad |
|---|---|
| 8-40 | Hawliau Ceblau a Hawliau Adeiladu a Chompownd mewn perthynas â thua 4,623 metr sgwâr o dir pori amaethyddol a llwybr mynediad i'r gogledd ddwyrain o'r A4086, Llanberis |
| 8-41 | Hawliau Adeiladu a Chompownd mewn perthynas â thua 2,804 metr sgwâr o dir pori amaethyddol a llwybr mynediad i'r gogledd ddwyrain o'r A4086, Llanberis |
| 8-46 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 3,156 metr sgwâr o dir pori amaethyddol, llwybr mynediad a llwybr cyhoeddus (Llanberis/48) i'r gogledd ddwyrain o'r A4086, Llanberis |
| 8-47 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 2,451 metr sgwâr o afon, gwely a glannau (Afon y Bala) a llwybr cyhoeddus (Llanberis/48) i'r gogledd ddwyrain o'r A4086, Llanberis |

**Maes Chwarae Llyn Padarn : Tua 1259 metr sgwâr yn cynnwys dwy ardal chwarae**

| Plot | Disgrifiad |
|---|---|
| 8-27 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 359 metr sgwâr o faes chwarae Llyn Padarn a throetffordd gyhoeddus i'r dwyrain o'r A4086, Llanberis |
| 8-28 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 61 metr sgwâr o faes chwarae Llyn Padarn a throetffordd gyhoeddus i'r dwyrain o'r A4086, Llanberis |
| 8-29 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 750 metr sgwâr o faes chwarae Llyn Padarn a llwybr cyhoeddus (Llanberis/48) i'r dwyrain o'r A4086, Llanberis |
| 8-30 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 11 metr sgwâr o lain ymyl ffordd glaswelltog (A4086, Llanberis) |
| 8-31 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 8 metr sgwâr o lain ymyl ffordd glaswelltog (A4086, Llanberis) |
| 8-32 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 70 metr sgwâr o lain ymyl ffordd glaswelltog (A4086, Llanberis) |

**Llain Ymyl Ffordd Llafn y Cewri: Tua 502 metr sgwâr yn cynnwys lleiniau ymyl ffordd, ardaloedd glaswelltog a throetffordd wrth ymyl yr A4086 Llanberis**

| Plot | Disgrifiad |
|---|---|
| 8-32a | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 502 metr sgwâr o leiniau ymyl ffordd, ardaloedd glaswelltog a throetffyrdd wrth ymyl yr A4086, Llanberis |

**Ardal â wal o'i chwmpas: Tua 356 metr sgwâr yn cynnwys llawr caled ac adeiladau wrth ymyl Canolfan Blymio Vivian, Llanberis**

| Plot | Disgrifiad |
|---|---|
| 8-56 | Hawliau Mynediad Gweithredol ac Adeiladu mewn perthynas â thua 108 metr sgwâr o lawr caled wrth ymyl Canolfan Blymio Vivian, Llanberis |
| 8-57 | Hawliau Ceblau mewn perthynas â thua 248 metr sgwâr o lawr caled ac adeiladau wrth ymyl Canolfan Blymio Vivian, Llanberis |